

---

# ADRODDIAD BLYNYDDOL: 2019 - 2020

Gorffennaf 2020

---

# Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

## Aelodau'r Bwrdd

- Y Fonesig Dawn Primarolo DBE PC (Cadeirydd)
- Ronnie Alexander
- Trevor Reaney CBE
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

- Lleu Williams, Clerc
- Ruth Hatton, Dirprwy Glerc

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Senedd:  
[www.senedd.cymru](http://www.senedd.cymru)

Mae copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

**Clerc i'r Bwrdd Taliadau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **Taliadau@Senedd.Cymru**

---

# **ADRODDIAD BLYNYDDOL: 2019 - 2020**

Gorffennaf 2020

---



# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>7</b>
<b>Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd</b> .....	<b>9</b>
1.1 Sefydlu a Phenodi .....	9
1.2 Swyddogaethau ac Amcanion .....	9
1.3 Egwyddorion .....	10
1.4 Methodoleg.....	11
1.5 Ymgynghori a chasglu tystiolaeth.....	12
<b>Gwaith y Bwrdd yn 2019-20</b> .....	<b>13</b>
1.6 Adolygu Penderfyniadau .....	13
1.7 Newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2020-21 .....	13
1.8 Penderfyniad eithriadol ar gyflog yr Aelodau.....	14
1.9 Ymateb i COVID-19 .....	15
1.10 Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd.....	16
1.11 Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd .....	17
1.12 Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu .....	17
1.13 Ystyried taliadau eithriadol .....	18
1.14 Y Bwrdd nesaf .....	18
<b>Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd</b> .....	<b>20</b>
<b>Atodiad B: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd – 2019-20</b> .....	<b>26</b>
<b>Atodiad C: Prosiectau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu 2019-20</b> .....	<b>28</b>
<b>Atodiad D: Adolygiad o Effeithiolrwydd Bwrdd Taliadau y Senedd</b> .....	<b>32</b>



# Cyflwyniad

Gyda thymor y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn dod i ben ym mis Medi eleni, mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen ar Aelodau i gyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae'r ymrwymiad hwn yn ymestyn i'r amgylchedd gwaith newidiol a heriol a wynebwyd gan Aelodau a'u staff yn ystod pandemig COVID-19.

Mae'r Bwrdd wedi ceisio defnyddio'r Penderfyniad presennol mewn modd sy'n helpu'r Aelodau i addasu i amgylchiadau'r pandemig ac i sicrhau cydnerthedd eu gwaith hwy a gwaith Llywodraeth Cymru. Mae cwmpas a gwaith Aelodau etholedig o'r Senedd wrth gynrychioli eu hetholwyr a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn parhau i fod yn hynod o bwysig ar yr adeg heriol hon.

Cyfarfu'r Bwrdd yn ffurfiol ar saith achlysur yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cyfarfod ar sawl achlysur gyda chynrychiolwyr Aelodau a'u staff cymorth, yn ogystal ag Aelodau neu staff unigol pan fo angen. Rwyf hefyd wedi trafod materion amrywiol gyda Chomisiwn y Senedd ar brydiau yn ôl yr angen.

Mae mwyafrif gwaith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio ar lunio Penderfyniad ar gyfer y tymor seneddol nesaf. Mae'r ddogfen a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020 yn nodi darpariaethau newydd sydd wedi'u hanelu'n benodol at gael gwared ar y rhwystrau sy'n atal pobl rhag dod yn Aelod o'r Senedd â'r nod o helpu i wella amrywiaeth ymhlith aelodau'r Siambr.

Fel y Cadeirydd ymadawol, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddweud diolch, yn gyntaf i'r Ysgrifenyddiaeth, i'r Comisiwn, i Wasanaethau Cymorth yr Aelodau, i'r Cynghorwyr Cyfreithiol, ac wrth gwrs i Glerc a Dirprwy Glerc y Bwrdd, sef y rhai sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd yn ogystal â'r rhai sydd wedi gweithio gyda ni dros y pum mlynedd diwethaf. Rydym wedi bod yn ffodus i gael cefnogaeth ragorol a chynghor clar drwyddi draw. Hoffwn hefyd ddiolch i bawb sydd wedi ymgysylltu â gwaith y Bwrdd, gan dynnu sylw'n benodol at y gefnogaeth a'r feirniadaeth adeiladol a gawsom gan Bwyllgor Cynrychiolwyr Aelodau'r Senedd a Phwyllgor Cynrychiolwyr Staff Cymorth Aelodau'r Senedd. Roedd y Bwrdd yn ddiolchgar am eich ymrwymiad a'ch cyfraniadau i'n trafodaethau. Yn olaf, hoffwn fynegi fy nymuniadau gorau i'r Bwrdd nesaf wrth iddo ymgymryd â'i waith.

Pob llwyddiant ar gyfer y dyfodol,



**Y Fonesig Dawn Primarolo**

**Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**



# Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae'r bennod hon yn disgrifio swyddogaethau'r Bwrdd, ei gylch gwaith a'i ffyrdd o weithio.

## 1.1 Sefydlu a Phenodi

**1.1.1 Bwrdd Taliadau Annibynnol** y Senedd<sup>1</sup> yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu taliadau a lwfansau yr Aelodau a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan **Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010** (y Mesur), a dderbyniodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

**1.1.2** Cafodd y Bwrdd hwn ei benodi gan weithdrefn dryloyw o benodiadau cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod haf 2015. Mae bywgraffiadau pob un o aelodau'r Bwrdd wedi'u cynnwys yn Atodiad A. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi am gyfnod penodol o bum mlynedd, ac ni chaniateir iddynt gael eu penodi am fwy na dau dymor.

**1.1.3** Cymeradwywyd y penodiadau'n ffurfiol gan Gomisiwn y Cynulliad ar y pryd ar 21 Medi 2015, a chynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod cyntaf ar 17 a 18 Medi 2015.

**1.1.4** Ar 12 Mehefin 2017, cymeradwyodd y Comisiwn benodiad Ronnie Alexander i'r Bwrdd yn ffurfiol, yn lle Roger Williams a ymddiswyddodd ym mis Mai 2016. Cymerodd Ronnie ei le ar y Bwrdd o 10 Gorffennaf 2017 ymlaen.

## 1.2 Swyddogaethau ac Amcanion

**1.2.1** Swyddogaethau'r Bwrdd yw penderfynu ar lefel taliadau a system o gymorth ariannol ar gyfer Aelodau sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau o'r Senedd. Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb statudol i sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

---

<sup>1</sup> Ar 6 Mai, newidiwyd enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru, ac fe gyfeirir at y sefydliad yn gyffredin fel y Senedd. O ganlyniad, mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon yn adlewyrchu'r newid enw, gan gyfeirio at y sefydliad fel y 'Cynulliad' mewn cyd-destun hanesyddol (cyn 6 Mai) a'r 'Senedd' wedi hynny.

**1.2.2** Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae **adran 3** o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r ffordd y gweithredir ei benderfyniadau a'i effeithiolrwydd yn barhaus, gan ystyried yn benodol y profiad y mae'r Bwrdd yn ei feithrin wrth roi ei benderfyniadau ar waith, unrhyw newidiadau i swyddogaethau'r Aelodau, ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n berthnasol.

**1.2.3** Er ei fod yn annibynnol ar y Senedd, ac er nad yw'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Senedd na Chomisiwn y Senedd, mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd ymgynghori â'r rhai y mae ei benderfyniadau yn debygol o effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu gan grwpiau o Aelodau, undebau llafur perthnasol ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Bwrdd o'r farn eu bod yn briodol.

**1.2.4** Yn unol â'r Mesur, mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn breifat ac yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw drwy gyhoeddi gwybodaeth ar wefan y Senedd yn ogystal â'i wefan ei hun gan sicrhau bod gwybodaeth am ei weithgareddau ar gael i'r cyhoedd. Mae **agenda a chofnodion** pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd ar gael ar wefan y Bwrdd ac ar wefan y Senedd. Mae'r Bwrdd hefyd yn cyhoeddi nodyn yn dilyn pob cyfarfod a gaiff ei rannu â'r Aelodau a'u staff.

**1.2.5** Yn ogystal, mae **adran 11** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd osod gerbron y Senedd adroddiad blynyddol am ei weithgareddau, gan gynnwys yr adnoddau a ddefnyddir ganddo, yn ystod pob blwyddyn ariannol. Caiff costau'r Bwrdd a'r treuliau a hawliwyd gan yr Aelodau eu cyhoeddi yn Atodiad B.

## 1.3 Egwyddorion

**1.3.1** Mae cyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir wedi bod yn sail i waith y Bwrdd hyd yn hyn:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau a roddir i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
- rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
- rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

**1.3.2** Yn 2016, datblygodd y Bwrdd set newydd o egwyddorion ac amcanion llywodraethu cyn cyhoeddi ei **strategaeth** ar gyfer cyflawni ei waith yn ystod y Pumed Senedd. Mae'r Bwrdd

wedi adolygu ei gynnydd yn unol â'r strategaeth hon fel rhan o adolygiad diwedd tymor o'i waith.

## 1.4 Methodoleg

**1.4.1** Mae'r penderfyniadau a nodir yn y Penderfyniad wedi'u seilio ar dystiolaeth a gasglwyd gan yr Aelodau, eu staff, ac unigolion, sefydliadau a ffynonellau perthnasol eraill. Daw'r penderfyniadau o'r adolygiad tryloyw a chyfranogol o'r system cefnogaeth ariannol a thaliadau.

**1.4.2** O ganlyniad i'r dystiolaeth a gafwyd gan y Bwrdd, mae wedi ceisio gwneud newidiadau i'r system daliadau sy'n targedu adnoddau i gefnogi dibenion y Senedd a phob agwedd ar rôl Aelod. Yn unol â'i gylch gwaith, mae'r Bwrdd yn ymateb i adborth fel y bo angen, drwy ystyried diwygiadau i'r Penderfyniad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben.

**1.4.3** Yn ystod y rhan gyntaf o waith y Bwrdd, cafodd aelodau'r Bwrdd gyfle i ddysgu mwy am eu rôl, sut y mae'r Senedd yn gweithio a'r heriau cyfansoddiadol a fyddai'n wynebu'r Bwrdd a'r Senedd yn y dyfodol. Defnyddiodd aelodau unigol o'r Bwrdd y profiad hwn i lywio penderfyniadau'r Bwrdd drwy gydol y flwyddyn gyntaf ac i lunio **strategaeth** ar gyfer ei waith yn y dyfodol.

**1.4.4** Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ddarparu adnoddau i ddiwallu anghenion penodol Aelodau ac i ymateb i ofynion Senedd Cymru wrth iddi barhau i esblygu. Mae'n bwysig bod y Bwrdd yn targedu adnoddau i gynorthwyo Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau craidd, sef: craffu ar bolisi a chyllid; dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif; deddfu; cytuno ar drethi Cymru; a chynrychioli eu hetholwyr.

**1.4.5** Nid yw hynny'n golygu nad yw'r Bwrdd wedi ystyried sut y gall ei swyddogaethau gyfrannu'n ehangach at ddatblygiad strategol Senedd Cymru, wrth i'r sefydliad dyfu a datblygu ac wrth i'w gofynion newid dros amser.

**1.4.6** Pan fo'r Bwrdd yn mentro i gyfrannu at faterion sydd â chanlyniadau ehangach, er enghraifft wrth geisio dileu rhwystrau ar gyfer darpar ymgeiswyr, mae bob amser yn ymwybodol o'i gylch gwaith.

**1.4.7** Mae'r Bwrdd yn cael cymorth clerico ac ymchwil, cyngor cyfreithiol a chyngor arall, a chymorth gweinyddol gan staff Comisiwn y Senedd (yn unol ag adran 9 o'r Mesur). Darperir y cymorth hwn fel rhan o ddyletswyddau cyffredinol staff y Comisiwn, ac nid yw felly'n arwain at unrhyw gostau ychwanegol i'r Bwrdd Taliadau.

## 1.5 Ymgynghori a chasglu tystiolaeth

**1.5.1** Ym mhob rhan o'i waith, mae'r Bwrdd wedi mynd ati i geisio tystiolaeth i lywio ei benderfyniadau drwy ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys Aelodau a'u staff cymorth. Bydd y Bwrdd yn argymhell i'r Bwrdd nesaf fod angen parhau â'r dull hwn er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n addas i'r diben.

**1.5.2** Yn ystod tymor y Senedd hon, mae'r Bwrdd wedi cynnal sawl ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cael adborth ar weithredu'r Penderfyniad yn ymarferol. Mae'r cyfleoedd hyn wedi cynnwys digwyddiadau ymgysylltu a chyfarfodydd ag Aelodau a staff cymorth, ymweliadau â swyddfeydd ledled gogledd a de Cymru ac arolygon. Mae'r Bwrdd wedi cael cyfarfodydd rheolaidd â'r grwpiau sy'n cynrychioli'r Aelodau a'u staff cymorth hefyd, pan fo'r Bwrdd yn cwrdd ag unigolion a enwebwyd o grwpiau'r pleidiau gwleidyddol i drafod materion sy'n codi.

**1.5.3** Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi mewnbwn Grwpiau Cynrychiolwyr yr Aelodau a'u staff cymorth ac, unwaith eto, bydd yn argymhell bod y Bwrdd nesaf yn parhau i ymgysylltu â'r grwpiau hyn er mwyn hyrwyddo ei benderfyniadau ac ystyried y materion a'r pryderon sy'n effeithio ar Aelodau a'u staff.

# Gwaith y Bwrdd yn 2019-20

Mae'r bennod hon yn egluro'r newidiadau y mae'r Bwrdd wedi'u gwneud i'r Penderfyniad eleni yn dilyn yr adborth a'r dystiolaeth a gafwyd gan yr Aelodau.

## 1.6 Adolygu Penderfyniadau

1.6.1 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r Penderfyniad fel ei fod yn parhau i:

- sicrhau bod lefel y taliadau y mae'r Aelodau yn eu cael yn adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd eu rôl fel Aelodau, ac nad yw'n rhwystro unrhyw un rhag ceisio cael ei ethol i'r Senedd;
- darparu'r adnoddau sydd eu hangen ar Aelodau i gyflawni eu rôl; a
- sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus,

yn unol ag **adran 3** o'r Mesur.

1.6.2 Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Bwrdd benderfyniadau mewn nifer o feysydd, fel yr amlinellir isod. Gwnaed diwygiadau i'r **Penderfyniad ar gyfer y Pumed Senedd** yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau cefnogaeth i'r Aelodau a fyddai'n addas i sefydliad â mwy o bwerau deddfwriaethol a threthu.

## 1.7 Newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2020-21

1.7.1 Yn ystod 2019-20, ymgynghorodd y Bwrdd ar gynigion ar gyfer newidiadau i'r Penderfyniad a fyddai'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021. Yn dilyn yr ymgynghoriad, penderfynodd y Bwrdd roi'r newidiadau a ganlyn ar waith:

- cynyddu'r lwfans Gwariant Llety Preswyl ar gyfer Aelodau'r ardal allanol gan 1.7 y cant yn unol â'r gyfradd mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) ar gyfer mis Medi 2019 ac i gadw'r gyfradd gyfredol ar gyfer y Lwfans Atgyweirio Hanfodol a'r Lwfans Gofalwr;

- cynyddu'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol gan 3.86 y cant. Mae'r newid hwn yn sicrhau bod cyfanswm yr hyn a gaiff ei wario ar gyflogau (sef tua 80.2 y cant o gyfanswm y lwfans yn 2018-19) yn cynyddu 4.4 y cant yn ôl cyfradd mynegai ASHE (gan fod cyflogau staff cymorth yn gysylltiedig â'r mynegai hwn), a bod gweddill y lwfans yn cael ei addasu yn ôl cyfradd y CPI ar gyfer mis Medi 2019, sef 1.7 y cant;
- dileu cyfyngiadau ar allu'r Aelodau i recriwtio i gontractau tymor penodol drwy ddiwygio'r Polisi Recriwtio. Byddai recriwtio o'r fath yn destun terfyn o 18 mis yn lle'r terfyn chwe mis cyfredol, gan gynnig mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau o ran gwario eu lwfansau staffio. Bydd y Polisi Recriwtio yn parhau i nodi y bydd unrhyw benodiadau sy'n para'n hwy na chwe mis yn destun proses recriwtio deg ac agored.

**1.7.2** Penderfynodd y Bwrdd hefyd beidio â chaniatáu i Aelodau hawlio'r costau am eitemau newydd sy'n ymwneud â newid enw'r sefydliad o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru neu'r Welsh Parliament cyn etholiad nesaf y Senedd (a drefnwyd ar gyfer Mai 2021). Byddai costau o'r fath wedi cynnwys arwyddion swyddfa a pharthau gwe. Nid oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i eiriad y Penderfyniad yn sgil hyn.

## 1.8 Penderfyniad eithriadol ar gyflog yr Aelodau

**1.8.1** Yn unol â pharagraff 3.2.1 o'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, bydd tâl Aelodau a deiliaid swyddi yn cael ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn gan y newid yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Enillion Canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru, rhwng mis Mawrth y flwyddyn honno a mis Mawrth y flwyddyn flaenorol. Byddai'r addasiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 yn 4.4 y cant, a byddai'n gymwys yn awtomatig o ganlyniad i roi paragraff 3.2.1 ar waith.

**1.8.2** Ar 30 Mawrth 2020, gwnaeth y Bwrdd **ail benderfyniad eithriadol** a ddaeth i rym yn ystod tymor y Senedd hon mewn perthynas â chyflog yr Aelodau.

**1.8.3** Ystyriodd y Bwrdd y sefyllfa hynod anghyffredin a digynsail o ganlyniad i bandemig COVID-19, a'r effaith economaidd anffafriol ddilynol, ac roedd o'r farn bod y sefyllfa wedi creu

amgylchiadau eithriadol, a'i bod felly'n gyfiawn ac yn rhesymol newid y Penderfyniad ar gyfer 2020-21<sup>2</sup>.

**1.8.4** Dyma oedd penderfyniad y Bwrdd, sy'n berthnasol yn lle paragraff 3.2.1 o'r Penderfyniad ar Gyflog a Lwfansau Aelodau:

*Bydd tâl Aelodau a deiliaid swyddi yn cael ei addasu ym mis Hydref 2020 gan +4.4. y cant, ac ar ôl hynny ym mis Ebrill bob blwyddyn gan y newid yn Enillion Canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru, yn ôl yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), rhwng mis Mawrth y flwyddyn honno a mis Mawrth y flwyddyn flaenorol.*

**1.8.5** Mae hyn yn golygu y byddai'r mynegai yn berthnasol ym mis Hydref 2020 yn hytrach nag 1 Ebrill 2020.

## 1.9 Ymateb i COVID-19

**1.9.1** Yn gynnar wrth i bandemig COVID-19 ddatblygu, ymrwymodd y Bwrdd Taliadau i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i Aelodau a'u staff cymorth i sicrhau eu bod yn gallu parhau â'u gwaith pwysig yn ystod yr adeg heriol hon.

**1.9.2** Ymrwymodd y Bwrdd i adolygu'r sefyllfa'n gyson er mwyn deall yn well sut yr oedd yn effeithio ar arferion gwaith yr Aelodau a'u swyddfeydd. O'r herwydd, penderfynodd y Bwrdd yn gynnar iawn ddilyn egwyddor o fod mor hyblyg â phosibl o ran y gefnogaeth a ddarperir drwy'r Penderfyniad.

**1.9.3** Sefydlwyd cronfa ar gyfer lwfans gweithio gartref a ddaeth i rym ar 2 Ebrill 2020, am gyfnod o hyd at dri mis i ddechrau. Diben y gronfa yw helpu â chostau gweithio gartref i'r staff cymorth sy'n gweithio gartref o ganlyniad i COVID-19. Caiff yr Aelodau hawlio hyd at £6 yr wythnos (neu hyd at £26 y mis ar gyfer staff a delir yn fisol) fesul aelod o staff cymorth (yn unol â chyfraddau Cyllid a Thollau EM a ganiateir ar gyfer gweithio gartref). Bydd y taliad hwn i staff yn ddi-dreth.

---

<sup>2</sup> Mae **Adran 13(3)** o Fesur 2010 yn darparu na chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un Penderfyniad a fydd i ddod i rym yn ystod tymor Senedd. Mae Adran **13(4)** yn caniatáu i'r Bwrdd wneud penderfyniad pellach a ddaw i rym yn ystod tymor Senedd os yw'r Bwrdd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol gwneud hynny.

**1.9.4** Yn ogystal, rhoddodd y Bwrdd ar waith **arweiniad i'r Aelodau** i gefnogi gweithio hyblyg i'w staff.

**1.9.5** Mae'r Bwrdd yn parhau i adolygu'r sefyllfa a bydd yn parhau i wneud hynny dros y misoedd nesaf. Mae hefyd mewn cysylltiad rheolaidd â'r Aelodau a Chomisiwn y Senedd i sicrhau bod unrhyw anghenion sy'n codi yn cael sylw cyn gynted ag y bo angen.

## **1.10 Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd**

**1.10.1** Mae gwaith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr Adolygiad o'r **Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd**.

**1.10.2** Yn ei strategaeth ar gyfer ei dymor o wasanaeth, ymrwymodd y Bwrdd Taliadau i gyhoeddi ei Benderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru yn 2021. Er mwyn bodloni'r amcan hwn, cytunodd y Bwrdd i lansio adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer 2021-2026 ym mis Hydref 2018. Cytunodd y Bwrdd ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr adolygiad:

- pa mor addas yw lefel y cymorth a ddarperir yn y Penderfyniad;
- hyblygrwydd, rhagnodoldeb a hygyrchedd y darpariaethau;
- uniondeb, atebolrwydd, rhesymoldeb a thryloywder y gwariant sydd ar gael.

**1.10.3** Fel rhan o'r adolygiad tair rhan, aed ati i gasglu tystiolaeth bellach gan Aelodau, eu staff, pleidiau gwleidyddol a chyrff y Senedd fel Comisiwn y Senedd ar y materion yr ymdrinnir â hwy ym mhob rhan o'r adolygiad. Ar ôl i'r adolygiad tair rhan ddod i ben, cytunodd y Bwrdd ym mis **Rhagfyr 2019** i ymgynghori ar Benderfyniad drafft llawn ar gyfer y Chweched Senedd, er mwyn rhoi prawf ar y cylch gorchwyl gwreiddiol.

**1.10.4** Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft ar gyfer y Chweched Senedd ar 5 Chwefror 2020. Trafodwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar 2 Ebrill ac roeddent yn sail i'r Adroddiad ar yr **Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd** a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r fersiwn derfynol o'r **Penderfyniad ar gyfer 2021-2026** ar 4 Mehefin 2020.



## 1.11 Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd

**1.11.1** Ar ddechrau 2020, comisiynodd y Bwrdd adolygiad o'i effeithiolrwydd dros ei gyfnod o bum mlynedd o wasanaeth. Cynhaliwyd yr Adolygiad gan Gareth Watts, Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd, Comisiwn y Senedd.

**1.11.2** Roedd adolygiad o waith y Bwrdd yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol hyn:

- Cyfansoddiad y Bwrdd;
- Cyfarfodydd y Bwrdd;
- trefniadau gweinyddol;
- cyfathrebu; a
- gwella a datblygu parhaus.

**1.11.3** Roedd gwerthuso'r meysydd allweddol yn cael ei ystyried gan drosdoriad o randdeiliaid y Bwrdd. Cafwyd adborth i'r adolygiad drwy gyfarfodydd ag aelodau'r Bwrdd; yr ysgrifenyddiaeth a'r tîm integredig ehangach sy'n cefnogi'r Bwrdd; ac Aelodau o'r Senedd a staff cymorth.

**1.11.4** Wrth ystyried adroddiad yr adolygiad ac ystyried camau i'w cymryd ar ôl derbyn yr adroddiad, cytunodd y Bwrdd i gyhoeddi'r adolygiad er mwyn cynnal tryloywder ac i roi cyd-destun fel rhan o'i etifeddiaeth i'r Bwrdd newydd. Gellir gweld adroddiad llawn ar yr Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd yn Atodiad D yr adroddiad hwn.

## 1.12 Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu

**1.12.1** Caiff yr Aelodau a'r grwpiau hawlio hyd at £2,500 y flwyddyn er mwyn comisiynu darnau unigol o waith ymchwil o ffynonellau allanol. Caiff yr Aelodau (ond nid y grwpiau) hefyd ddefnyddio'r gronfa i ymgysylltu â'u hetholwyr. Ni chaniateir defnyddio'r arian hwn ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth y pleidiau.

**1.12.2** Yn ystod 2019-20, manteisiodd 37 o Aelodau ar y gronfa. Gwariwyd cyfanswm o £60,111.04 ar waith, ac mae manylion am y gwaith a gyflawnwyd yn Atodiad C.

## 1.13 Ystyried taliadau eithriadol

**1.13.1** Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai amgylchiadau eithriadol effeithio ar Aelodau unigol, gan effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd y rhain yn aml yn gyfrinachol eu natur, a gallant godi ar fyr rybudd. Mae dyletswydd ar y Bwrdd i gefnogi'r Aelodau ym mhob agwedd ar eu rôl ac, ym marn y Bwrdd, os caiff wybod am amgylchiadau o'r fath, dylai wneud penderfyniad a oes achos o blaid darparu cymorth ariannol eithriadol. Yn amlwg, mae angen ymdrin â cheisiadau o'r fath mewn ffordd sensitif, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith ar gyfer adrodd ar drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd. Pan fo'r costau'n barhaus, bydd y Bwrdd yn adolygu pob achos yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod yr amgylchiadau personol yn aros yr un fath ac felly, bod y penderfyniad yn parhau i fod yn ddilys ac yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

**1.13.2** Yn ystod 2019-20 cymeradwyodd y Bwrdd ddau gais, gan dalu cyfanswm o £5,305.76. Daeth y taliadau parhaus eraill i gyfanswm o £14,101.50 am yr un flwyddyn ariannol.

**1.13.3** Mae'r Bwrdd wedi cytuno i adolygu'r holl daliadau presennol yn flynyddol (mewn achosion pan fo'r taliadau ychwanegol yn ymestyn y tu hwnt i 12 mis). Y rheswm am hyn yw er mwyn sicrhau bod yn dal angen y gefnogaeth a ddarperir, ac er mwyn asesu a fu unrhyw newid yn yr amgylchiadau. Yn 2018, cyflwynodd y Bwrdd ffurflen gais a chanllawiau newydd ar gyfer ceisiadau am daliadau eithriadol. Mae'r Bwrdd yn hyderus y bydd y rhain yn helpu i egluro pa wybodaeth y mae angen i Aelodau ei darparu ac, yn ei dro, sicrhau bod y broses gyfan yn fwy effeithlon i bawb dan sylw.

## 1.14 Y Bwrdd nesaf

**1.14.1** Daw tymor pum mlynedd y Bwrdd cyfredol i ben ym mis Medi 2020. Bydd y Cadeirydd, y Fonesig Dawn Primarolo, a Trevor Reaney yn ymddiswyddo ar ddiwedd y tymor hwn. Yn dilyn proses recriwtio agored, penodwyd Cadeirydd newydd ac Aelod newydd o'r Bwrdd gan Gomisiwn y Senedd ym mis Mehefin 2020. Daw'r penodiadau hynny i rym ym mis Medi 2020. Mae'r Comisiwn wedi ailbenodi dau aelod cyfredol i barhau ar y Bwrdd am dymor arall o bum mlynedd, sef Mike Redhouse a Jane Roberts. Bydd Ronnie Alexander yn parhau i fod yn aelod hefyd.

**1.14.2** Mae'r Bwrdd yn falch o'r gwaith y mae wedi'i wneud dros y pum mlynedd diwethaf, ac yn benodol y ffordd y mae ei ymgysylltiad ag Aelodau a'u staff cymorth wedi esblygu i lywio ei benderfyniadau. Cyhoeddwyd **Y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd** ym mis

Mehefin 2020, ac roedd yn benllanw ar ymdrechion y Bwrdd i weithio tuag at yr amcanion a nodwyd yn ei strategaeth yn 2017. Mae hefyd yn cyfrannu at un o amcanion eraill y Bwrdd i wneud yr hyn y mae'n gallu i ddenu ymgeiswyr mwy amrywiol i sefyll yn etholiadau Cymru.

**1.14.3** Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd wrthi'n gorffen briff trosglwyddo ar gyfer y Bwrdd nesaf, gan dynnu sylw at unrhyw faterion y mae'n credu y gallent gynorthwyo'r Bwrdd newydd i gyflawni ei waith dros y pum mlynedd nesaf.

## Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd



Chwith-dde: Michael Redhouse, Ronnie Alexander, Y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd), Y Fonesig Jane Roberts, Trevor Reaney



### **Y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)\***

Mae'r Fonesig Dawn Primarolo, DBE, yn wleidydd Plaid Lafur Prydain a oedd yn Aelod Seneddol dros Dde Bryste rhwng 1987 a 2015, pan roddodd y gorau i'w sedd. Bu'n Weinidog Gwladol dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd rhwng mis Mehefin 2009 a mis Mai 2010, ac yn Ddirprwy Lefarydd Tŷ'r Cyffredin ers 2010. Cafodd ei phenodi'n Fonesig Gadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (DBE) am ei gwasanaeth gwleidyddol.

Ganed Dawn yn Llundain a chafodd ei magu yn Crawley, Gorllewin Sussex. Dychwelodd i Lundain ym 1973 i weithio, ac ymunodd â'r Plaid Lafur yn ystod ei chyfnod yn gweithio fel ysgrifennydd cyfreithiol mewn Canolfan Gyfreithiol yn nwyrain Llundain.

Symudodd i Fryste ym 1974 a ganed ei mab, Luke, ym 1978. Astudiodd ar gyfer gradd BA (Anrhydedd) mewn gwyddorau cymdeithasol ym Mholytechnig Bryste fel myfyriwr aeddfed a rhiant sengl, ac yn dilyn hynny cyflawnodd waith ymchwil PhD ym maes menywod a thai.

Cafodd Dawn ei hethol am y tro cyntaf i Senedd y DU yn etholiad cyffredinol 1987 a bu'n gwasanaethu yn y swyddi canlynol:

- 1992–1994: Llefarydd yr Wrthblaid ar gyfer Iechyd
- 1994–1997: Llefarydd yr Wrthblaid ar gyfer y Trysorlys
- 1997–1999: Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys
- 1999–2007: Tâl-feistr Cyffredinol
- 2007–2009: Y Gweinidog Gwladol dros Iechyd y Cyhoedd
- 2009–2010: Y Gweinidog Gwladol dros Blant a Phobl Ifanc

Urddwyd Dawn yn Arglwyddes am Oes yn y Deyrnas Unedig ym mis Awst 2015.



### **Trevor Reaney\***

Penodwyd Trevor Reaney yn Glerc a Phrif Weithredwr Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2008 tan iddo ymddeol ym mis Mehefin 2016. Dechreuodd Trevor ei yrfa yn y diwydiant lletygarwch, ac mae wedi dal nifer o swyddi rheoli yn y sector preifat a chyhoeddus. Cyn ymuno â'r Cynulliad, bu Trevor yn gweithio fel Prif Weithredwr Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon o fis Ionawr 2004. Cyn hynny, roedd yn Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Craigavon, rhwng 1996 a 2003.

Bellach mae Trevor yn ymgymryd â gwaith ymgynghori ar ei liwt ei hun ac mae'n ymwneud â nifer o sefydliadau:

- Aelod o Fwrdd Awdurdod y Diwydiant Diogelwch
- Aelod o Gorff Adolygu Tâl yr Heddlu a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- Ymddiriedolwr Tree Aid (elusen ddatblygu ryngwladol).



### **Michael Redhouse**

Ar hyn o bryd, Michael Redhouse yw Pennaeth EMES Consulting, sef cwmni a sefydlodd yn 2002 sy'n helpu llawer o sefydliadau mawr gyda materion taliadau a buddion. Graddiodd Michael mewn mathemateg o'r Brifysgol Agored, ac mae ei yrfa wedi cynnwys cyfnodau fel Partner yn Ernst and Young a Chyfarwyddwr Polisi Cyflogaeth yn Diageo. Bu Michael yn gwasanaethu fel Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth APEX, sy'n cefnogi troseddwr sy'n dychwelyd i'r gwaith, ac fel Cadeirydd Ymddiriedolwyr Hosbis St Luke yn Harrow.

Mae Michael yn Aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB), sy'n edrych ar gyflogau, dyletswyddau proffesiynol ac amser gweithio athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr, ac sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol.



### **Y Fonesig Jane Roberts**

Mae Jane yn Gymrawd Ymchwil mewn Arweinyddiaeth Gyhoeddus yn Ysgol Fusnes y Brifysgol Agored.

Rhwng 2000 a 2005, Jane oedd Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Camden yn Llundain, ac ers hynny mae wedi gwasanaethu mewn nifer o rolau anweithredol gan gynnwys Cadeirydd Comisiwn Cynghorwyr yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Cadeirydd Parenting UK, aelod o fwrdd Ofsted, Cadeirydd Rhwydwaith Llywodraeth Leol Newydd ac, ar hyn o bryd, Cadeirydd yr elusen Living Streets. Mae hi hefyd yn aelod o Grŵp Cyngori Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Urddwyd Jane yn DBE yn 2004. Yn broffesiynol, mae hi'n feddyg ac mae'n Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc Er Anrhydedd â phrofiad o uwch-reoli ym maes gofal iechyd yn y GIG.

Mae Jane wedi cyhoeddi nifer o erthyglau academiaidd am bediatreg, seiciatreg a gwleidyddiaeth. Cyd-olygodd 'The Politics of Attachment' (1996) gyda Sebastian Kraemer, a hi yw awdur 'Losing Political Office' (2017).





### **Ronnie Alexander (Gorffennaf 2017 ymlaen)**

Mae Ronnie yn gyn-Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd i Lywodraeth Cymru. Mae'n Eiriolwr Defnyddwyr i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac mae'n aelod o Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru. Yn ogystal, mae Ronnie yn Gyfarwyddwr Anweithredol i Estyn, Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac mae'n aelod o'r Pwyllgorau Safonau ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chyngor Bro Morgannwg. Mae hefyd yn cadeirio'r Panel Taliadau Annibynnol ar Lwfansau Aelodau ar gyfer Cyngor Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf ac mae'n Aelod Panel Cyngor Dinas Bryste.

Roedd gan Ronnie yrfa yn y gwasanaeth sifil am dros 20 mlynedd, ac roedd newid hinsawdd a chynaliadwyedd yn ddiddordebau penodol ganddo. Cyn hynny bu'n gweithio i nifer o awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr mewn meysydd fel gorfodi a gwasanaethau cymorth strategol. Mae ganddo hanes sylweddol o ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a gwleidyddion ar bob lefel i ddylanwadu ar bolisi.

Cadarnhaodd Comisiwn y Cynulliad benodiad Ronnie i'r Bwrdd ym mis Mehefin 2017. Cymerodd ei le ar y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017.

\* Daw cyfnod y Bwrdd presennol i ben ym mis Medi 2020. Bydd y Fonesig Dawn Primarolo a Trevor Reaney yn rhoi'r gorau ar ddiwedd y cyfnod hwn. Mae Comisiwn y Senedd wedi penodi Cadeirydd ac aelod newydd i'r Bwrdd, a byddant yn dechrau ym mis Medi 2020.

# Atodiad B: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd – 2019-20

Mae'r tabl isod yn dangos y costau uniongyrchol a ysgwyddwyd gan y Bwrdd Taliadau yn 2019-20. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd saith cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd yn ogystal â nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ag Aelodau a staff cymorth. Aeth aelodau'r Bwrdd ati i gynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ag Aelodau a staff cymorth hefyd i lywio ei adolygiad o gymorth staffio i Aelodau. Mae'r tablau a ganlyn yn nodi ffioedd a threuliau aelodau'r Bwrdd.

**Tabl 1: Ffioedd Aelodau'r Bwrdd (cyn treth)**

	Y Fonesig Dawn Primarolo	Y Fonesig Jane Roberts	Trevor Reaney	Michael Redhouse	Ronnie Alexander	Cyfanswm
<b>Cyfradd ddyddiol</b>	£333.00	£267.00	£267.00	£267.00	£267.00	
<b>Cyfradd yr awr</b>	£44.40	£35.60	£35.60	£35.60	£35.60	
<b>Cyfanswm y Ffioedd</b>	£5,521.86	£2,657.01	£3,257.97	£3,182.52	£3,904.80	<b>£18,524.16</b>

**Tabl 2: Treuliau Aelodau'r Bwrdd**

	Y Fonesig Dawn Primarolo	Y Fonesig Jane Roberts	Trevor Reaney	Michael Redhouse	Ronnie Alexander	Cyfanswm
<b>Milltiroedd mewn car</b>	£0.00	£0.00	£16.50	£0.00	£126.02	<b>£142.52</b>
<b>Tacsi/Llogi car</b>	£190.29	£39.60	£537.42	£20.43	£0.00	<b>£787.74</b>
<b>Teithio mewn awyren</b>	£0.00	£0.00	£856.32	£0.00	£0.00	<b>£856.32</b>
<b>Trên â'r Tiwb</b>	£598.30	£678.47	£152.53	£383.91	£0.00	<b>£1,813.21</b>

---

<b>Tollau</b>	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	<b>£0.00</b>
<b>Treuliau eraill</b>	£0.00	£0.00	£80.21	£0.00	£0.00	<b>£80.21</b>
<b>Llety</b>	£581.82	£714.73	£996.86	£364.50	£0.00	<b>£2,657.91</b>
<b>Cynhaliaeth (arlwyo)</b>	£122.20	£216.91	£189.35	£117.24	£114.98	<b>£760.68</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,492.61</b>	<b>£1,649.71</b>	<b>£2,829.19</b>	<b>£886.08</b>	<b>£241.00</b>	<b>£7,098.59</b>

# Atodiad C: Prosiectau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu 2019-20

Aelod o'r Senedd	Teitl y gwaith
<b>Adam Price</b>	Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru
<b>Alun Rhys Davies</b>	Dyfodol i ganol trefi ym Mlaenau Gwent
<b>Ann Jones</b>	20 mlynedd o ddatganoli
<b>Ann Jones</b>	20 mlynedd o ddatganoli
<b>Bethan Sayed</b>	Trefnu hysbyseb ym mhapur newydd 7 Day Sport
<b>Bethan Sayed</b>	Tynnu arwydd allanol i lawr a'i wneud yn ddiogel
<b>Bethan Sayed</b>	Dylunio a gosod arwyddion newydd
<b>Caroline Jones</b>	Argraffu cylchlythyr
<b>Dai Lloyd</b>	Adroddiad Blynyddol
<b>Dai Lloyd</b>	Hysbysfwrdd
<b>Dai Lloyd</b>	Hysbysfyrddau hysbysebu
<b>Dai Lloyd</b>	Hysbysfyrddau hysbysebu
<b>Dai Lloyd</b>	Dylunio & Gosod arwyddion newydd
<b>Dai Lloyd</b>	Tynnu arwydd allanol i lawr a'i wneud yn ddiogel
<b>Dai Lloyd</b>	Hysbysebu
<b>Darren Millar</b>	Taflen allgymorth i etholwyr
<b>Darren Millar</b>	Taflen allgymorth i etholwyr
<b>David Rees</b>	Rhannu manylion cyswllt ag etholwyr
<b>David Rees</b>	Rhannu manylion cyswllt ag etholwyr
<b>David Rees</b>	Rhannu manylion cyswllt ag etholwyr

<b>Member of the Senedd</b>	<b>Title of work</b>
<b>David Rees</b>	Hysbysebion – Clwb Rygbi Aberafan
<b>Dawn Bowden</b>	Gwaith ar y cae chwarae a hysbysebion yn y rhaglen – Clwb Pêl-droed Athletic Western Treharris
<b>Dawn Bowden</b>	Dawn Bowden AC – Cylchlythyr
<b>Dawn Bowden</b>	Dawn Bowden AC – Cylchlythyr
<b>Dawn Bowden</b>	Hysbysebion ar y cae chwarae – Clwb Rygbi Merthyr
<b>Dawn Bowden</b>	Hysbysebion ar y cae chwarae – Cymdeithas Clwb Pêl-droed Merthyr Tudful
<b>Dawn Bowden</b>	Hysbysebion ar y cae chwarae – Clwb Rygbi Merthyr
<b>Dawn Bowden</b>	Hysbysebion ar y cae chwarae – Cymdeithas Clwb Pêl-droed Merthyr Tudful
<b>Dawn Bowden</b>	Hysbysebion ar y cae chwarae – Clwb Criced Merthyr Tudful
<b>Elin Jones</b>	Adroddiad Blynyddol 2019-20
<b>Elin Jones</b>	Adroddiad Blynyddol 2019-20
<b>Eluned Morgan</b>	Adroddiad Blynyddol 2019/2020 – Eluned Morgan
<b>Eluned Morgan</b>	Argraffu'r Adroddiad Blynyddol
<b>Gareth Bennett</b>	Cylchlythyr
<b>Hefin David</b>	Hysbysebion ar gaeau chwaraeon
<b>Hefin David</b>	Hysbysebion ar gaeau chwaraeon
<b>Hefin David</b>	Hysbysebion ar gaeau chwaraeon
<b>Hefin David</b>	Hysbysebion ar gaeau chwaraeon
<b>Huw Irranca-Davies</b>	Adeiladu Rhwydweithiau Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru: Egwyddorion Cydweithredol
<b>Jack Sargeant</b>	Diweddariad ar waith AC - Banc Cymunedol
<b>Jack Sargeant</b>	Diweddariad ar waith AC - Banc Cymunedol
<b>Jane Hutt</b>	Ymchwilio i effaith mentrau hyrwyddo gamblo sydd wedi'u hymgorffori mewn clybiau pêl-droed a rygbi ar blant yn Ne Cymru

<b>Member of the Senedd</b>	<b>Title of work</b>
<b>Janet Finch-Saunders</b>	A oes angen help arnoch?
<b>Janet Finch-Saunders</b>	A oes angen help arnoch?
<b>Janet Finch-Saunders</b>	Taflen gyngor A5 Janet Finch-Saunders
<b>Jenny Rathbone</b>	Ymchwilio i effaith mentrau hyrwyddo gamblo sydd wedi'u hymgorffori mewn clybiau pêl-droed a rygbi ar blant yn Ne Cymru
<b>Jenny Rathbone</b>	Magnetau oergell i fyfyrwyr
<b>John Griffiths</b>	Ymchwilio i effaith mentrau hyrwyddo gamblo sydd wedi'u hymgorffori mewn clybiau pêl-droed a rygbi ar blant yn Ne Cymru
<b>John Griffiths</b>	Hysbyseb yn Rhaglen Clwb Rygbi Casnewydd
<b>John Griffiths</b>	Gosod hysbyseb drwy'r tymor Pêl-droed
<b>John Griffiths</b>	Gosod hysbyseb drwy dymor Clwb Rygbi Casnewydd
<b>John Griffiths</b>	Hysbyseb yn Rhaglen Clwb Pêl-droed Sir Casnewydd
<b>John Griffiths</b>	Cyfarfod Beicio Casnewydd - Rhentu Ystafell
<b>Julie Morgan</b>	Adroddiad Blynyddol Julie Morgan AC
<b>Ken Skates</b>	Cylchlythyr yr haf/Adroddiad Etholaeth
<b>Kirsty Williams</b>	Newyddion gan Kirsty Williams AC
<b>Leanne Wood</b>	Map Llwybr ar gyfer y Rhondda
<b>Lee Waters</b>	Adeiladu Rhwydweithiau Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru: Egwyddorion Cydweithredol
<b>Lynne Neagle</b>	Effeithiolrwydd strategaethau atal yn yr ysgol yn dilyn hunanladdiad: Crynodeb cyflym o'r dystiolaeth
<b>Mark Drakeford</b>	Adroddiad Blynyddol Gorllewin Caerdydd
<b>Mark Drakeford</b>	Adroddiad Blynyddol Gorllewin Caerdydd
<b>Mick Antoniw</b>	Adroddiad Blynyddol - Mick Antoniw AC
<b>Mick Antoniw</b>	Adroddiad Blynyddol - Mick Antoniw AC
<b>Mike Hedges</b>	Adeiladu Rhwydweithiau Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru: Egwyddorion Cydweithredol

<b>Member of the Senedd</b>	<b>Title of work</b>
<b>Mohammad Asghar</b>	Ffair Sgiliau a Swyddi Oscar!
<b>Mohammad Asghar</b>	Ffair Sgiliau a Swyddi Oscar!
<b>Mohammad Asghar</b>	Ffair Sgiliau a Swyddi Oscar!
<b>Mohammad Asghar</b>	Cerdyn adrodd yn ôl A5
<b>Mohammad Asghar</b>	Dosbarthu taflenni
<b>Mohammad Asghar</b>	Magnetau oergell yr AC ar gyfer etholwyr
<b>Neil McEvoy</b>	Cofnod ar Facebook – Mwd Niwclear
<b>Neil McEvoy</b>	Hyrwyddo Tudalen Facebook Neil McEvoy
<b>Neil McEvoy</b>	Cynnal profion Coronafeirws
<b>Neil McEvoy</b>	Coronafeirws – profion a chyngor
<b>Neil McEvoy</b>	Cyfarfod cyhoeddus – llosgydd
<b>Neil McEvoy</b>	Fideo lobio
<b>Paul Davies</b>	Hysbysebion wedi'u targedu ar Facebook
<b>Plaid Cymru group</b>	Cau'r Bwlch Cyllidol
<b>Rebecca Evans</b>	Adeiladu Rhwydweithiau Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru: Egwyddorion Cydweithredol
<b>Russell George</b>	Arolwg – Rhoi'r bleidlais i garcharorion
<b>Russell George</b>	Arolwg – Rhoi'r bleidlais i garcharorion
<b>Sian Gwenllian</b>	Ystyried hyd a lled pwerau tâl ac amodau athrawon (Teachers Pay and Conditions)
<b>Suzy Davies</b>	Arolygon gwasanaeth bws
<b>Vikki Howells</b>	Hyrwyddo gweithgaredd Cyfryngau Cymdeithasol
<b>Vikki Howells</b>	Adroddiad Blynyddol Vikki Howells 2019/2020
<b>Vikki Howells</b>	Hyrwyddo gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol
<b>Vikki Howells</b>	Adeiladu Rhwydweithiau Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru: Egwyddorion Cydweithredol

# Atodiad D: Adolygiad o Effeithiolrwydd Bwrdd Taliadau y Senedd

## Cefndir a chyd-destun

1. Gofynnwyd i mi gynnal adolygiad o effeithiolrwydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y Bwrdd).
2. Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o'r Senedd (yr Aelodau) er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swydd yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.
3. Y Bwrdd presennol yw'r ail Fwrdd Taliadau a chyfarfu am y tro cyntaf ar 17 Medi 2015. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi gan Gomisiwn y Senedd am gyfnod penodol o bum mlynedd (y mae modd ei adnewyddu am dymor pellach).

## Cwmpas

4. Rwyf wedi canolbwyntio ar y meysydd allweddol a ganlyn wrth gynnal yr adolygiad hwn:
  - cyfansoddiad y Bwrdd;
  - cyfarfodydd y Bwrdd;
  - trefniadau gweinyddol;
  - cyfathrebu; a
  - gwelliant a datblygiad parhaus.
5. Casglwyd y dystiolaeth a arweiniodd at yr adroddiad hwn mewn trafodaethau gyda chroestoriad o randdeiliaid y Bwrdd, gan gynnwys:



- aelodau'r Bwrdd;
  - ysgrifenyddiaeth y Bwrdd;
  - staff sy'n cyflwyno yng nghyfarfodydd y Bwrdd; ac
  - Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth.
6. Yn ogystal, fe wnes i adolygu nifer o gofnodion a phapurau o gyfarfodydd y Bwrdd a'i gylch gorchwyl.
  7. Bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau ym mhob un o'r meysydd a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn tynnu sylw at gryfderau'r Bwrdd a meysydd posibl i'w hystyried ar gyfer y Bwrdd newydd.
  8. Rwy'n cydnabod mai cyfrifoldeb y Bwrdd newydd yw unrhyw feysydd sydd i'w datblygu, ac nid oes argymhellion i'w cael yn yr adroddiad hwn. Byddaf yn paratoi adroddiad ar wahân yn amlinellu argymhellion ar gyfer y Bwrdd newydd.
  9. Rwy'n ddiolchgar i bawb a'm helpodd â'r adolygiad.

## Crynodeb

10. Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd wedi perfformio'n gryf dros ei dymor o bum mlynedd.
11. Mae aelodau'r Bwrdd yn gadarnhaol ar y cyfan wrth fyfyrir ar eu profiadau o'r Bwrdd a chaiff yr agwedd gadarnhaol hon ei hadleisio gan randdeiliaid eraill sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd. Maent yn disgrifio cyfarfodydd y Bwrdd fel rhai croesawgar, yn dweud ei bod yn hawdd mynd at aelodau'r Bwrdd a'u bod yn frwdfrydig iawn yn eu gwaith.
12. Mae'r cysylltiadau gwaith effeithiol a'r parch rhwng aelodau'r Bwrdd yn agwedd bwysig sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at ei lwyddiant yn ystod ei dymor, ac mae'n thema sy'n treiddio drwy bob maes o'r adolygiad hwn.
13. Mae'r adolygiad wedi nodi nifer fechan o feysydd lle gallai fod angen gwaith datblygu pellach. Lle bo hynny'n briodol, mae'r adroddiad yn amlygu manylion y meysydd hyn.

Fel y nodir ym mharagraff 8, bydd unrhyw argymhellion sy'n codi mewn perthynas â'r meysydd hyn yn cael eu cynnwys mewn dogfen ar wahân i'w trafod gan y Bwrdd newydd.

## Y canfyddiadau allweddol

14. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau'r adolygiad.

### Cyfansoddiad y Bwrdd

15. Y ffactor pwysicaf ar gyfer llwyddiant unrhyw fwrdd yw sicrhau bod aelodaeth y bwrdd yn cynnwys y bobl iawn, gyda'r sgiliau iawn. O ran cyfansoddiad y Bwrdd, canfu fy adolygiad fel a ganlyn:

- Mae gan y Bwrdd presennol ystod eang o sgiliau sy'n ategu ei gilydd ac yn sicrhau bod y Bwrdd yn gallu cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.
- Mae sgiliau a gwybodaeth y Bwrdd yn cynnwys, ymhlith pethau eraill: gwybodaeth a phrofiad o wleidyddiaeth leol a chenedlaethol; dealltwriaeth o'r ffordd y mae deddfwrfa'n gweithredu; gwybodaeth a phrofiad o fywyd cyhoeddus Cymru; ac arbenigedd mewn meysydd technegol fel pensiynau.
- Gyda'i gilydd, mae'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad hyn oll yn ychwanegu gwerth at sut y ffordd y mae'r Bwrdd yn gweithredu, yn rhoi hygyrdedd i'r Bwrdd wrth iddo ymdrin â'i amrywiol randdeiliaid ac yn arwain at barch cadarnhaol a chydfuddiannol rhwng gwahanol aelodau'r Bwrdd.
- Wrth gydnabod y gwahanol sgiliau sydd ar gael i'r Bwrdd, mae'r Cadeirydd wedi helpu i feithrin amgylchedd o gynhwysiant a pharch drwy ddirprwyo cyfrifoldebau am arwain ar feysydd gwaith i aelodau eraill y Bwrdd, a hynny'n seiliedig ar eu meysydd arbenigedd eu hunain.
- Mae cysylltiadau gwaith cadarnhaol y Bwrdd presennol yn ymestyn y tu hwnt i gyfyngiadau'r cyfarfodydd ffurfiol ac ystafell y bwrdd ei hun. Mae'r gwaith y tu allan i'r cyfarfodydd yn arwyddocaol ac yn hanfodol i effeithiolrwydd y Bwrdd.

## Cyfarfodydd y Bwrdd

16. Mae cyfarfodydd effeithiol y Bwrdd yn cynnig cryn dipyn o her adeiladol. Maent yn defnyddio'r amser sydd ar gael, yn cael eu trefnu'n dda ac mae presenoldeb da ynddynt. Mae'r adran hon yn amlinellu nodweddion cyfarfodydd y Bwrdd.
- Yr yn sydd o werth arbennig i'r Bwrdd yw'r ciniawau cyn cyfarfodydd, ac mae holl aelodau'r Bwrdd yn eu mynychu y noson cyn dechrau'r cyfarfodydd ffurfiol. Mae hyn yn golygu bod modd mynd i'r afael ag unrhyw feysydd o anghytuno neu anhawster posibl cyn y cyfarfod ei hun ac mae hefyd yn cyfrannu at gynnal cyfarfodydd effeithiol ar y diwrnod. Mae'r agwedd hon ar arferion gwaith answyddogol y Bwrdd yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y Bwrdd.
  - Gwnaeth yr holl bobl a gafodd eu cyfweld sylw am y swm sylweddol o waith paratoi ac ymchwil, yn y meysydd niferus y mae'r Bwrdd yn gyfrifol amdanynt, y maent yn ei wneud y tu allan i'r cyfarfodydd. Mae'r gwaith paratoi a'r diwydrwydd manwl hwn gan yr holl aelodau yn gryfder mawr i'r Bwrdd presennol ac yn helpu i sicrhau bod cyfarfodydd yn rhedeg yn esmwyth.
  - Y rhagdybiaeth yw bod yr holl bapurau wedi'u darllen cyn y cyfarfod ac mae'r cyfarfod yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau.
  - Oherwydd y gwaith enfawr a wneir i baratoi y tu allan i'r cyfarfod, caiff hyn ei gyflawni bron bob amser drwy gonsensws heb orfod mynd i bleidlais
  - Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae'r Bwrdd wedi diffinio blaenoriaethau strategol ac egwyddorion arweiniol clir sy'n sail i bob penderfyniad. Mae hyn wedi arwain at gysondeb yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ac mae hefyd yn cynnig rhesymeg glir dros benderfyniadau.
  - Caiff y cyfarfodydd eu cadeirio'n dda, gyda her a thrafodaeth drylwyr ynddynt. Mae'r Cadeirydd yn cael llawer o glod gan ei chyd-aelodau am greu awyrgylch cynhwysol ac adeiladol. Yn arbennig, maent yn gwerthfawrogi ei gallu i annog cyfraniadau gan holl aelodau'r Bwrdd; mae hi'n rhannu ei barn ond nid yw'n dominyddu. Mae llawer hefyd yn canmol y ffordd y mae'r Cadeirydd yn trin a thrafod agenda sydd yn helaeth ac, ar brydiau, yn orlawn.
  - Mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn fodlon eu bod yn cael cyfle i drafod a chwblhau holl eitemau'r agenda yn ystod cyfarfodydd.

- Dywedodd y rhai sy'n mynychu'r Bwrdd ac yn cyflwyno papurau fod amgylchedd yr ystafell fwrdd yn un croesawgar, ond ei fod ar yr un pryd yn rhoi her gadarn lle gwelir bod hyn yn angenrheidiol.
- Mae'r Bwrdd yn dangos y gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth yn y ffordd y mae'n gweithredu, gan gynnal cyfarfodydd rhithwir hyd yn oed cyn iddynt ddod yn angenrheidiol o ganlyniad i bandemig Covid-19. Roedd y diwylliant hwn yn caniatáu trosglwyddo'n llyfn i gyfarfodydd ar-lein mwy rheolaidd yn ystod cyfnod y pandemig.
- Ar ddechrau tymor y Bwrdd, roedd teimlad weithiau bod gofyn i'r Bwrdd, ar brydiau, wneud penderfyniadau adweithiol neu roi arweiniad ar ddehongliad o'r Penderfyniad ar feysydd penodol iawn, a bod hyn weithiau'n canolbwyntio ar ddatrys materion yn codi gan un neu dau Aelod.
- Drwy gydol ei dymor, mae'r Bwrdd wedi ceisio cymryd golwg fwy cyfannol ar y Penderfyniad cyfan, gan wneud nifer o newidiadau yn ystod y cyfnod hwn, sydd wedi lleihau nifer y materion yr oedd angen iddo'u hystyried ar lefel unigol. Mae'r Bwrdd wedi datblygu a defnyddio cyfarfodydd i neilltuo amser a thrafodaethau i fentrau 'darlun ehangach'.
- Un enghraifft o hyn yw ei waith cyfannol mewn perthynas â'r broses o ran yr arweiniad a'r fframwaith polisiau ynghylch Aelodau yn cyflogi eu staff. Mae newid ffocws y Bwrdd a'i gyfraniad o ran cefnogi'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau i ddatblygu llawlyfr staff i'w gyflwyno yn y chweched Senedd yn nodi'r ffordd y mae rôl briodol y Bwrdd a'r Aelodau'n cael ei gwneud yn fwy eglur.

### **Materion i'r Bwrdd newydd eu hystyried – cyfarfodydd**

- Cytuno'n gynnar ar sut y dylid cynnal cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol i reoli disgwyliadau.

### **Trefniadau gweinyddol**

17. Mae Bwrdd llwyddiannus yn elwa o drefniadaeth drylwyr, papurau o ansawdd uchel a threfniadau gweinyddol cadarn.
18. Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn pennu: Mae'n rhaid i Gomisiwn y Cynulliad roi cymorth gweinyddol o'r fath i'r Bwrdd fel y mae angen

rhesymol amdano er mwyn ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar lefel a natur y cymorth sy'n cael ei roi i'r Bwrdd ar hyn o bryd:

- Mae aelodau'r Bwrdd yn gwerthfawrogi'n fawr y cymorth a'r ymroddiad sy'n dod gan swyddogion y Comisiwn.
- Mae yna berthynas waith effeithiol gydag aelodau'r Bwrdd a'r ysgrifenyddiaeth, a ddarperir gan swyddogion y Comisiwn.
- Sefydlwyd rhaglen gynefino strwythuredig ar gyfer yr holl aelodau ar ddechrau eu tymor.
- Hefyd, cynhaliwyd 'diwrnod strategaeth' cwrdd i ffwrdd y gogledd ar gyfer yr aelodau hynny a ddechreuodd eu tymor yn 2015 (pedwar o'r pum aelod cyfredol). Roedd pawb a oedd yn bresennol ar y diwrnod hwnnw yn credu bod y sesiwn yn un gadarnhaol. Fe wnaeth hyn helpu i feithrin perthynas rhwng aelodau'r Bwrdd a gosod cyfeiriad y Bwrdd ar ddechrau eu tymor. Mae'r strategaeth hon wedi cael ei hadolygu drwy gydol cyfnod y Bwrdd.
- Yn gyffredinol, mae aelodau'r Bwrdd yn fodlon eu bod yn derbyn papurau cyfarfod mewn da bryd cyn cyfarfodydd.
- Weithiau, y farn yw nad yw rhai papurau manwl yn cael eu dosbarthu tan ychydig ddyddiau cyn y cyfarfod. Mae hyn yn golygu bod llawer llai o gyfle i'r aelodau fynd drwy'r wybodaeth yn llawn.
- O ran papurau sy'n cynnwys gwybodaeth o natur arbennig o dechnegol neu gymhleth, byddai'n well gan aelodau gael mwy o grynodedb o'r materion dan sylw. Ceir cydnabyddiaeth bod templed a fformat papurau'r Bwrdd wedi gwella yng nghyfnod y Bwrdd cyfredol, gan wneud pwrpas y papur a'r camau sydd eu hangen gan y Bwrdd yn fwy eglur. Fodd bynnag, ar adegau mae aelodau'n cael dadansoddiad manwl yr arbenigwyr ac yn fy hysbysu y byddai'n well ganddynt pe bai swyddogion y Comisiwn yn distyllu'r wybodaeth hon neu'n ystyried technegau a phrosesau gwahanol ar gyfer rhannu gwybodaeth, fel cyflwyniadau, ffeithluniau a siartiau.
- Caiff cofnodion a chatau gweithredu clir eu dosbarthu mewn modd amserol yn dilyn pob cyfarfod o'r Bwrdd.

- Mae'r Bwrdd yn dweud eu bod wir yn gwerthfawrogi'r berthynas adeiladol gydag arbenigwyr ymhlith staff y Comisiwn, gan gynnwys Gwasanaethau Cyfreithiol a'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau, sy'n gallu darparu gwybodaeth ac arbenigedd â gwerth ychwanegol i'r Bwrdd.
- Weithiau bydd y Bwrdd yn contractio â 'thrydydd partion' arbenigol, sy'n darparu cynigion a chyngor ychwanegol i'r Bwrdd. Nid yw allbynnau gwaith o'r fath sy'n cael ei gomisiynu, a gyflwynir yng nghyfarfodydd y Bwrdd, bob amser wedi bodloni disgwyliadau'r Bwrdd.

### **Materion i'r Bwrdd newydd eu hystyried – trefniadau gweinyddol**

- Fformat ac arddull y papurau sy'n cael eu paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd, gan gynnwys arweiniad ar hyd papurau a'r posibilrwydd o ddefnyddio gwahanol fformatau fel cyflwyniadau i rannu gwybodaeth.
- Mae yna gyfleoedd i ddysgu drwy gomisiynu cyngor gan drydydd partion i sicrhau bod y Bwrdd yn gwireddu buddion llawn y cyngor a ddarperir ac i sicrhau gwerth am arian.
- Ar hyn o bryd mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ymchwilio i'r gwahanol ffyrdd y mae modd lledaenu gwybodaeth a phapurau a'u rhannu gyda'r Bwrdd. Bydd angen gwneud gwaith ar y cyd â gwasanaeth TGCh y Comisiwn i nodi'r datrysiad mwyaf addas at y dyfodol.

### **Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid**

19. Fe wnes i ganfasio barn rhai o randdeiliaid allweddol y Bwrdd a gofyn i aelodau'r Bwrdd rannu eu myfyrdodau eu hunain ar y dulliau cyfathrebu y maent yn eu mabwysiadu. Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau a ddaeth o'r gwaith hwn.
- Mewn adrannau blaenorol, rwyf eisoes wedi disgrifio ffyrdd effeithiol aelodau'r Bwrdd o gyfathrebu â'i gilydd ac ar y cyd â swyddogion y Comisiwn.
  - Roedd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y llinellau cyfathrebu gyda'r Bwrdd. Awgrymodd pawb a gafodd eu cyfweld eu credu ei bod yn hawdd mynd at y Bwrdd a'u bod yn deall sut y mae modd cysylltu â'r Bwrdd.
  - Mae'r Aelodau a'u staff cymorth yn gwerthfawrogi'n arbennig y cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r Bwrdd drwy gyfarfodydd grŵp cyfeirio a sesiynau galw heibio. Caiff yr

achlysuron hyn eu disgrifio fel rhai anffurfiol a chroesawgar ac mae hyn yn dangos parodrwydd ac awydd y Bwrdd i wrando a deall y pryderon y mae Aelodau a'u staff efallai'n eu hwynebu.

- Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu dull ymgynghorol yn y ffordd y mae'n ymdrin â rhanddeiliaid, gan helpu i adolygu pob agwedd ar y Penderfyniad yn unol â'i strategaeth a'i flaenraglen.
- Mae yna blwraliaeth barn gan rhanddeiliaid wrth ystyried effeithiolrwydd y dull gweithredu y mae'r Bwrdd wedi'i fabwysiadu. Gwerthfawrogir bod safbwyntiau'n cael eu ceisio ond mae teimlad ymysg rhai rhanddeiliaid eu bod yn blino ar ymgynghori ac nad yw bob amser yn glir beth y mae pob ymgynghoriad yn ei ofyn iddynt.
- Mae'r pwnc sy'n rhan o gylich gwaith cul y Bwrdd yn un sensitif a dadleuol iawn. Yn anochel, nid yw'r rhai y mae penderfyniadau'n effeithio arnynt yn uniongyrchol, gan gynnwys Aelodau a staff cymorth, bob amser yn gefnogol o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Fodd bynnag, maent yn deall y rhesymeg a ddefnyddiwyd i ddod at y penderfyniadau hynny, gan fod y Bwrdd yn gosod ei resymeg yn glir.
- Mae rhai rhanddeiliaid yn teimlo y gellid gwneud gwelliannau i lefelau a fformat y gwaith cyfathrebu, a gallai tymor newydd i'r Bwrdd fod yn gyfle i ailasesu'r maes hwn. Rhai o'r awgrymiadau oedd: cynnig mwy o sesiynau holi ac ateb ac efallai mwy o ryngweithio rhithwir â staff cymorth sy'n gweithio mewn swyddfeydd etholaethol neu ranbarthol.
- Mae'r Bwrdd yn gwneud ymdrech i ymgysylltu â'i brif rhanddeiliaid a chyfleu ei negeseuon iddynt. Mae'n defnyddio sesiynau unigol ac ar un achlysur fe wnaeth ddefnyddio colociwm, sydd yn offeryn cyfathrebu effeithiol ym marn y Bwrdd.
- Yn y gorffennol, bu peth pryder ynghylch faint mae'r cyfryngau Cymreig yn deall rôl a chylch gwaith y Bwrdd. Mae'n ymddangos y ddealltwriaeth hon yn gwella ond mae yna rai cyfleoedd o hyd i wneud gwaith pellach i ddatblygu yn y maes hwn, gyda'r posibilrwydd o feithrin perthynas fwy rhagweithiol gyda'r cyfryngau a thrwy hyn y cyhoedd yn ehangach.
- Mae cyfraddau ymateb i ymgynghoriadau'r Bwrdd o fywyd dinesig ehangach Cymru yn parhau i fod yn isel. Efallai y bydd cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau mwy rhagweithiol gyda grwpiau o'r fath yn y maes hwn hefyd.

**Materion i'r Bwrdd newydd eu hystyried - cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid**

- Ymgysylltu o'r newydd â'r Aelodau a'u staff cymorth i ganfasio barn am wahanol fathau o gyfathrebu.
- Ymchwilio i ffyrdd o wella cysylltiadau â'r cyfryngau Cymreig.
- Ystyried yr hyn sydd yn y bôn yn achosi diffyg ymatebion i ymgynghoriadau ac ymchwilio i gyfleoedd i'r Bwrdd ymgysylltu â bywyd dinesig ehangach Cymru a dod yn rhan annatod ohono.

**Gwelliant a datblygiad parhaus**

20. Dylai Byrddau effeithiol annog amgylchedd lle mae hunanarfarnu a datblygiad parhaus yn broses arferol a bwriadol.

- Mae gan bob aelod o'r Bwrdd brofiad sylweddol a gwerthfawr y gallant dynnu arno o eistedd ar fyrdau a phwyllgorau mewn rhannau eraill o'r sectorau preifat a chyhoeddus.
- Fe wnaeth trafodaethau gydag aelodau'r Bwrdd ymchwilio i'r defnydd posibl o fetrigau i fesur llwyddiant a chynnydd y Bwrdd. Cydnabuwyd ei bod yn anodd i unrhyw fwrdd ddatblygu mesurau ystyrion i fesur llwyddiant. I'r Bwrdd hwn, mae'n fater o gyflawni ei strategaeth a chyflawni ei flaenraglen. Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn myfyrio ar yr adborth o arolwg yr Aelodau a'u staff cymorth. Rwy'n dod i'r casgliad, o ystyried natur y Bwrdd, fod dull gweithredu o'r fath yn ffordd dderbyniol o fesur ei lwyddiant yn ystyrion.
- Mae gan y Comisiwn gyllid i helpu i gefnogi hyfforddiant a datblygiad aelodau'r Bwrdd pe bai angen hyn, ond nid yw'r Bwrdd presennol wedi gweld yr angen i ddefnyddio cyllid o'r fath. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, defnyddiwyd arbenigwyr trydydd parti i roi cyngor i'r Bwrdd.
- Drwy gydol yr adroddiad, rwyf wedi pwysleisio'r gwaith sy'n cael ei wneud y tu allan i'r ystafell fwrdd, a hynny ar ddechrau tymor y Bwrdd ac yna'n parhau drwy gydol cyfnod y Bwrdd. Mae meithrin y cysylltiadau hyn a thynnu ar gryfderau unigolion yn arwydd o ffyrddau effeithiol ac mae wedi cyfrannu'n sylweddol at effeithiolrwydd y Bwrdd hwn.



- Un pwnc trafod arall oedd rheoli perfformiad, ac fe wnaeth aelodau'r Bwrdd roi eu barn ar hyn. Byddwn i'n cytuno na ddylid dechrau'r gwaith o ddatblygu dull gweithredu o ran trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer y Bwrdd er mwyn bod yn rhywbeth sy'n ticio blwch yn unig. Yn ystod oes y Bwrdd hwn, ni fu unrhyw arwyddion bod angen mecanwaith o'r fath. Ceir cydnabyddiaeth hefyd bod y Bwrdd yn fach iawn o ran maint, felly mae perthynas agos rhwng pob aelod a'r Cadeirydd. Fodd bynnag, byddai arfer da yn mynnu y dylid sefydlu elfen o adolygiad rheoli perfformiad er mwyn rheoli disgwyliadau rhwng y Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd yn ffurfiol a gwarchod rhag y risg o beidio â mynd i'r afael â thanberfformio yn ystod Bwrdd yn y dyfodol.

### **Materion i'r Bwrdd newydd eu hystyried – gwelliant a datblygiad parhaus**

- Adolygu cyfarfodydd anffurfiol y Bwrdd cyfredol a gweld a oes modd cymhwyso hyn i'r Bwrdd newydd.
- Y posibilrwydd o gyflwyno system rheoli perfformiad.
- Nodi unrhyw anghenion hyfforddi neu fylchau mewn sgiliau ymhlith aelodau newydd y Bwrdd.

## **Sylwadau i gloi**

21. Gwahoddir y Bwrdd i ystyried a thrafod canfyddiadau'r adolygiad hwn.

22. Hoffwn ddiolch i bawb unwaith eto a helpodd i gyfrannu tuag at yr adolygiad hwn ac rwy'n dymuno'n dda i'r Bwrdd at y dyfodol.

**Gareth Watts,**

Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd

Gorffennaf 2020